OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1853 (Cy.203)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	-	-	*16 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	-	-	*31 Gorffennaf 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 156(4) o Ddeddf Tai 1985(**1**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

Corff a bennir

2. Pennir Blemain Finance Ltd (Rhif cwmni 1185052) yn sefydliad benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156(**3**) o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon).

(**1**) 1985 p.68; diwygiwyd adran 156(4) gan Ddeddf Tai 1988 (p.50), Atodlen 17, paragraff 106 a chan Ran XIII o Atodlen 19 i Ddeddf Tai 1996 (p.52).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) Diwygiwyd adran 156 hefyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63), Atodlen 5, paragraff 1(2) a (5) a chan adran 120(3) a (4) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai, Datblygu Trefol 1993 (p.28).